



A ydych chi'n ei chael yn anodd talu am gostau iechyd?

Efallai fod gennych hawl i gael cymorth drwy Gynllun Incwm Isel y GIG

Defnyddiwch y ffurflen hon os oes angen y pethau hyn arnoch:

- Triniaeth ddeintyddol y GIG
- Profion golwg, sbectol a lensys cyffwrdd
- Teithio i dderbyn triniaeth y GIG o dan ofal ymgynghorydd

Efallai na fydd yn rhaid i chi dalu amdanynt neu efallai fod gennych hawl i gael rhywfaint o gymorth tuag at y gost.

Gallwch wneud cais ar unrhyw adeg - Peidiwch ag aros nes y bydd angen y driniaeth arnoch chi.

Gallwch wneud cais: ar eich cyfer chi eich hun; eich partner; eich plant.

Os ydych eisiau help neu os oes gennych gwestiynau am y ffurflen hon, ffoniwch y llinell ymholiadau cwsmeriaid ar **0300 330 1343**. Os nad Saesneg yw eich mamiaith, gallwch ffonio'r rhif hwn a dweud wrthym yn Saesneg, neu ofyn i ffrind ddweud wrthym, ym mha iaith yr hoffech siarad â ni a byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn.

NID oes angen i chi lenwi'r ffurflen hon os ydych chi neu'ch partner yn derbyn:

- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Gwarant y Credyd Pensiwn
- Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Incwm; neu
- Os ydych â'r hawl i gael Tystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG, neu fod eich enw ar dystysgrif o'r fath.
- Y Credyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n Seiliedig ar Incwm

Mae gennych hawl eisoes i gymorth llawn gyda chostau iechyd - ond os ydych wedi talu am unrhyw gostau iechyd **cyn** i chi ddechrau cael unrhyw un o'r budd-daliadau hyn neu **cyn** i chi gael yr hawl i Dystysgrif Eithrio Credyd Treth y GIG, darllenwch glawr cefn y ffurflen hon i weld sut y gallwch hawlio'r arian yn ôl.

NI ALLWCH gael cymorth gyda chostau iechyd os oes gennych chi a/neu eich partner gyda'ch gilydd fwy na:

- £16,000 mewn cynilion, buddsoddiadau neu eiddo (heb gyfrif lle rydych yn byw)
- £24,000 mewn cynilion, buddsoddiadau neu eiddo os ydych chi'n byw'n barhaol mewn cartref gofal.

Nodyn Pwysig - Os ydych chi'n byw mewn cartref gofal neu'n 16 neu'n 17 oed a newydd adael gofal yr Awdurdod Lleol efallai y bydd angen ffurflen wahanol arnoch. Ffoniwch ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar 0300 330 1343 a byddwn yn dweud wrthydd chi beth i'w wneud.



Mae'r ffurflen hon ar gyfer pobl sy'n preswyllo yng Nghymru.

Darllenwch y nodiadau ar y dudalen hon a thudalen B cyn llenwi'r ffurflen - byddant yn eich helpu i wneud y cais hwn yn iawn. Yna datgysylltwch **Dudalennau A a B** a'u cadw er gwybodaeth.

SUT I LENWI'R FFURFLEN HON

Ewch drwy'r ffurflen yn ofalus - yn y rhan fwyaf o'r ffurflen gofynnir i chi dicio blwch **IE** neu **NA** a rhoi unrhyw fanylion y gofynnir amdanynt. Bydd y nodiadau ar y ffurflen yn dweud wrthy'ch beth i'w wneud nesaf. Os bydd angen mwy o le arnoch i ateb unrhyw un o'r cwestiynau defnyddi'ch **Ran 9**.

Beth sydd angen i ni ei wybod - rydym am wybod amdanoch chi a'ch partner ac unrhyw incwm a chynilion sydd gennych. Bydd ein hasesiad yn adlewyrchu eich amgylchiadau ar ddyddiad cyflwyno'ch cais.

Beth mae 'partner' yn ei olygu - defnyddi'wn 'partner' i olygu person sy'n byw gyda chi fel rhan o bâr o'r un rhyw neu o ryw gwahanol, p'un a ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ai peidio. Uniad cyfreithlon rhwng dau berson o'r un rhyw yw partneriaeth sifil. Os nad oes gennych bartner, llenwch y manylion amdanoch chi eich hun yn unig.

Os ydym yn gofyn am dystiolaeth - os ydych yn gweithio, yn fyfyrwr amser llawn neu'n derbyn hyfforddiant, byddwn yn gofyn ichi roi dystiolaeth o'ch incwm. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i gyfrifo faint y mae gennych hawl i'w dderbyn. Gallwch anfon llungopiau fel dystiolaeth.

Os na fyddwch yn anfon y dystiolaeth yr ydym yn gofyn amdani bydd hynny'n arafu eich cais. Os nad ydych yn siŵr pa dystiolaeth i'w hanfon (neu os nad yw'r dystiolaeth gennych) dylech ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343, rhwng 8.00am a 6.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener**.

Os ydych chi'n hawlio arian yn ôl - mae tudalen olaf y ffurflen hon yn dweud wrthy'ch sut i hawlio arian yn ôl. Defnyddi'ch **Ran 9** i ddweud wrthym a yw eich amgylchiadau wedi newid rhwng y dyddiad y talwyd yr arian a dyddiad llofnodi'r ffurflen hon.

Os ydych chi wedi hawlio o'r blaen - mae'n rhaid ichi llenwi'r ffurflen hon a rhoi eich manylion cyfredol, gan fod ein hasesiad yn seiliedig ar eich amgylchiadau ar ddyddiad eich cais.

Mae amgylchiadau pawb yn newid o dro i dro, hyd yn oed os mai newidiadau mewn taliadau rhent, morgais neu dreth gyngor yw'r rhain, neu'r cynnydd blynyddol yn eich budd-daliadau neu enillion. Gall hyd yn oed newidiadau bach fel hyn effeithio ar faint o gymorth y gallwch ei hawlio.

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen hon - anfonwch hi atom ni gan ddefnyddio'r amlen ragdaledig sy'n amgaeedig. Os na wnaethoch chi dderbyn yr amlen, rhowch "Freepost LIS" ar eich amlen. Ni fydd yn rhaid defnyddio stamp.

SUT I LENWI'R FFURFLEN HON AR RAN RHYWUN ARALL

Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir. Dylent ddweud wrthy'ch beth i'w ysgrifennu a dylent lofnodi neu adael eu nod ym **Mlwch 10A**. Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ran rhywun sydd ag anawsterau dysgu neu'n dioddef o gyflwr sy'n golygu na allant ymdrin â'u materion eu hunain, eich cyfrifoldeb chi yw gwneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir. Dylech lofnodi'r ffurflen eich hun ym **Mlwch 10B**. Os nad ydych yn siŵr a allwch lofnodi'r ffurflen ar ran rhywun arall, ffoniwch ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343, rhwng 8.00am a 6.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener**.

BETH FYDDWN NI YN EI WNEUD

- Bydd Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG: **Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle Upon Tyne, NE99 2ZA** yn asesu eich cais.
- Fel rheol, byddwn yn asesu eich cais o fewn 15 diwrnod gwaith wedi'r dyddiad y byddwn yn derbyn eich ffurflen. Os bydd angen mwy o wybodaeth arnom cyn y gellir asesu eich cais byddwn fel arfer yn asesu eich cais o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn yr wybodaeth honno.
- Os oes gennych hawl i dderbyn help byddwn yn anfon tystysgrif atoch yn dweud faint, os o gwbl, y bydd yn rhaid ichi ei dalu tuag at eich costau iechyd. Dylech dderbyn eich tystysgrif o fewn 4 wythnos wedi dyddiad eich cais. Bydd yn dechrau ar y dyddiad y byddwn yn derbyn eich ffurflen gais.
- Os bydd angen tystysgrif newydd arnoch dylech anfon ffurflen HC1W newydd atom.
- Os oes gennych unrhyw ymholiadau am eich cais, neu os na fyddwch wedi clywed gennym ar ôl 4 wythnos, gallwch ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343 rhwng 8.00am a 6.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener**.
- Rydym yn parchu cyfrinachedd y cwsmer bob amser. Dim ond gyda'ch caniatâd chi y byddwn yn rhoi gwybodaeth am eich cais i berson arall. Bydd angen iddynt ddyfynnu cyfeirnod eich tystysgrif.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y nodiadau sydd ar **Dudalen A** (y tu mewn i'r clawr blaen) hefyd.

SUT RYDYM YN ASESU EICH CAIS

Ar sail yr wybodaeth a roddwch ar y ffurflen gais hon, rydym yn cymharu eich incwm â'ch gofynion er mwyn gweithio allan faint o gymorth y gallwch ei gael drwy Gynllun Incwm Isel y GIG (gweler isod).

Rydym yn amcangyfrif hyn ar sail eich amgylchiadau ar y dyddiad y daeth eich ffurflen gais i law a bydd unrhyw gymorth a gewch yn dechrau o'r dyddiad hwnnw. Mae'n bwysig felly eich bod yn anfon y ffurflen atom cyn gynted â phosibl.

<p>Mae 'incwm' yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • enillion ar ôl tynnu treth, Yswiriant Gwladol a hanner unrhyw gyfraniadau pensiwn • budd-daliadau a phensiynau Nawdd Cymdeithasol • pensiynau gwaith neu bensiynau ymddeol • grantiau/benthyciadau myfyrwyr a chyfraniad rhieni <p>Sylwer: Caiff benthyciad myfyrwyr ei gynnwys fel incwm os ydych yn gymwys am un, p'un a ydych yn cymryd y benthyciad ai peidio. Mae hynny'n cynnwys y rhannau sy'n gysylltiedig ag incwm a'r rhannau nad ydynt yn gysylltiedig ag incwm.</p> <ul style="list-style-type: none"> • arian o gronfeydd ymddiriedolaeth • pensiwn Anabledd Rhyfel neu bensiwn Gweddwon Rhyfel • unrhyw incwm arall yr ydych chi neu'ch partner yn ei gael yn rheolaidd 	<p>Mae 'gofynion' yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lwfansau personol i chi, eich partner ac unrhyw blant sy'n ddibynnol arnoch ac sy'n byw gyda chi. Mae'r rhain ar raddfeydd a gymeradwyir gan y Senedd ar gyfer treuliau byw o ddydd i ddydd sy'n cynnwys pethau fel trethi dŵr, biliau tanwydd, biliau ffôn, rhentu teledu ac yswiriant tŷ • premiymau ar gyfer anghenion arbennig am eich bod, er enghraifft, dros 60 oed, yn anabl neu fod rhywun anabl yn eich teulu • costau tai yr ydych chi a'ch partner yn gyfrifol amdanynt. Mae'r rhain yn cynnwys ad-dalu morgais, a rhent nad yw'r Budd-dal Tai yn ei dalu. Nid yw costau tai yn cynnwys arian yr ydych chi'n ei dalu i aelod arall o'ch teulu • y Dreth Gyngor yr ydych chi neu eich partner yn gyfrifol amdani <p>Sylwer: Mae'r gyfradd lwfansau personol a'r premiymau yn codi o leiaf unwaith y flwyddyn, fel arfer ym mis Ebrill, yn unol â'r trefniadau cymhorthdal incwm. Os oes arnoch angen mwy o wybodaeth am hyn ewch i'n gwefan: www.ppa.org.uk/low_income.htm</p>
<p><i>Canllawiau yn unig yw'r rhain – byddwn yn asesu eich cais yn unigol</i></p>	

CYMORTH A CHYNGOR

- Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am gymorth gyda chostau'r GIG, mynnwch daflen HC11W **"Help gyda Chostau Iechyd"**. Gallwch ei chael drwy ffonio 0345 603 1108 neu drwy fynd i www.healthcosts.wales.nhs.uk
- I gael cyngor am y cais hwn ffoniwch yr Adran Gwasanaethau Cleifion ar **0300 330 1343 rhwng 8.00am a 6.00pm ddydd Llun i ddydd Gwener**, neu ysgrifennwch atom ni yn **Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG, Bridge House, 152 Pilgrim Street, Newcastle Upon Tyne, NE99 2ZA**.
- Os hoffech gael rhestr o ffioedd cyfredol y GIG, gallwch eu gweld drwy fynd i www.healthcosts.wales.nhs.uk
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill gallwch gysylltu â chanolfan gynghori fel y Swyddfa Cyngor ar Bopeth

Hawlio arian yn ôl

SUT I GAEL EICH ARIAN YN ÔL OS YDYCH CHI EISOES WEDI TALU

Fel arfer, gallwch hawlio arian yn ôl os ydych chi eisoes wedi talu am rywbeth. Mae'r siart isod yn dweud wrthy ch beth y dylech ei wneud. Mae ein cyfrifiad ni yn seiliedig ar eich amgylchiadau ar y diwrnod y gwnaethoch y taliad.

Rhaid cyflwyno ceisiadau am ad-daliadau o fewn 3 mis ar ôl y diwrnod y gwnaethoch y taliad. Os byddwch yn gwneud cais fwy na 3 mis ar ôl y diwrnod hwnnw, rhaid i ni benderfynu a oes yna reswm da pam ei fod yn hwyr cyn y gellir ei dderbyn. Dylech anfon esboniad gyda'ch cais. Hefyd, dywedwch wrthym yn **Rhan 9** os oedd eich amgylchiadau yn wahanol pan wnaethoch y taliad.

MAE'R TABL HWN YN DWEUD WRTHYCH SUT I GAEL EICH ARIAN YN ÔL OS YDYCH CHI NEU'CH PARTNER EISOES WEDI TALU AM RYWBETH

Beth rydych wedi talu amdano	Beth ddylech ei anfon atom ni	Pryd ddylech chi ei anfon
Presgripsiwn GIG	Mae taliadau presgripsiwn wedi cael eu diddymu yng Nghymru ers 1 Ebrill 2007. Nid oes rhaid i chi dalu os ydych wedi cofrestru gyda meddygfa yng Nghymru ac yn cael eich presgripsiwn o fferyllfa yng Nghymru. Os ydych wedi'ch cofrestru gyda meddygfa yn Lloegr bydd angen cerdyn hawl dilys arnoch.	
Triniaeth Ddeintyddol y GIG Sylwer: Ni ellir ad-dalu ffioedd deintyddol preifat.	<ul style="list-style-type: none">Derbynneb sy'n dangos i chi gael triniaeth y GIG.Ffurflen gais am ad-daliad HC5W(D) (gweler isod)	Rhaid i ni dderbyn eich cais o fewn 3 mis wedi'r dyddiad y taloch am eich triniaeth ddeintyddol. Os ydych yn talu fesul tipyn am eich triniaeth, anfonwch eich cais o fewn 3 mis wedi i chi orffen talu
Gwalltiau Gosod neu Staesiaau Ffabrig y GIG	Ynghyd â phresgripsiynau, mae'r taliadau am walltiau gosod a chymhorthion hefyd wedi cael eu diddymu yng Nghymru.	
Prawf Golwg	<ul style="list-style-type: none">Derbynneb sy'n dangos eich bod wedi talu am prawf golwgFfurflen gais am ad-daliad HC5W(O) (gweler isod)	Rhaid i ni dderbyn eich cais o fewn 3 mis wedi dyddiad eich prawf golwg
Sbectol neu lensys cyffwrdd Sylwer: Os ydych chi wedi defnyddio taleb optegol tuag at gost eich sbectol neu'ch lensys cyffwrdd, ni chewch eich arian yn ôl oni bai i chi ddefnyddio taleb 'lens gymhleth'	<ul style="list-style-type: none">Derbynneb sy'n dangos eich bod wedi talu am sbectol neu lensys cyffwrddEich presgripsiwn optegol – ni allwn ymdrin â'ch ad-daliad heb hwnFfurflen gais am ad-daliad HC5W(O) (gweler isod)	Rhaid i ni dderbyn eich cais o fewn 3 mis wedi'r dyddiad y taloch am eich sbectol neu'ch lensys cyffwrdd
Costau teithio i'r ysbyty am driniaeth y GIG	<ul style="list-style-type: none">Tocynnau, neu dderbynneb am eich costau teithio (os yw'r rhain genny ch)Ffurflen hawlio ad-daliad HC5W(T) (gweler isod)	Rhaid i ni dderbyn eich cais o fewn 3 mis wedi'r dyddiad y taloch y costau teithio

I gael gafael ar ffurflen HC5W - ewch i www.healthcosts.wales.nhs.uk neu ffoniwch ein llinell archebu **0345 603 1108**.

Sylwer: Os ydych chi'n hawlio mwy nag un math o ad-daliad (er enghraifft, ffioedd deintyddol a sbectol) bydd angen ichi lenwi ffurflen HC5W ar wahân ar gyfer pob math o daliad yr ydych chi wedi'i wneud.

POBL SY'N CAEL CYMHORTH DAL INCWM, CREDYD GWARANT Y CREDYD PENSIWN, LWFANS CEISIO GWAITH SY'N SEILIEDIG AR INCWM, Y CREDYD CYNHWYSOL, LWFANS CYFLOGAETH A CHYMORTH SY'N SEILIEDIG AR INCWM, NEU SYDD Â'R HAWL I GAEL TYSTYSGRIF EITHRIO CREDYD TRETH Y GIG, NEU SYDD Â'U HENWAU AR DYSTYGRIF O'R FATH

Os ydych chi'n cael un o'r budd-daliadau/credydau uchod, ond eich bod eisiau hawlio arian yn ôl am rywbeth y gwnaethoch dalu amdano **cyn** ichi gael unrhyw un o'r budd-daliadau/credydau hyn, defnyddiwch y ffurflen hon i ddweud am eich amgylchiadau chi **ar y diwrnod y gwnaethoch dalu**. Nodwch "**Ad-daliad yn Unig**" ar flaen y ffurflen a dywedwch wrthym pa fudd-daliadau/credydau treth yr ydych chi'n eu cael yn

Rhan 9

Darllenwch y nodiadau ar **Dudalen A a B** cyn llenwi'r ffurflen hon.

Os oes angen help arnoch neu os oes gennych gwestiynau am lenwi'r ffurflen, gallwch ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343**.

SYLWER: At ddibenion gwirio hawliau, efallai y bydd gwybodaeth berthnasol ar y ffurflen hon yn cael ei datgelu i gyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol, a chan y cyrff hynny.

Rhan 1 Chi a'ch partner

1.1	Ydych chi'n gwneud cais am gostau iechyd yr ydych wedi talu amdanynt eisoes?	Nac ydw	<input type="checkbox"/>
		Ydw	<input type="checkbox"/>

1.2	A oes gennych bartner sy'n byw gyda chi?	Nac oes	<input type="checkbox"/>
		Oes	<input type="checkbox"/>

MANYLION PERSONOL – YSGRIFENNWCH MEWN PRIFLYTHRENAU

DYDDIAD AMSER		Chi	Eich partner
	TEL. 2		
DYDDIAD AMSER	1.3	Cyfenw/ enw teuluol	<input type="text"/>
		Enwau eraill	<input type="text"/>
TEL. 1		Mr/Mrs/Miss/Ms/arall	<input type="text"/>
		Dyddiad geni	dd/mm/yyyy
BLWCH AT DDEFNYDD SWYDDOGOL		Rhif Yswiriant Gwladol	<input type="text"/>
		Cyfeiriad	<input type="text"/>
		Cod post	<input type="text"/>
		Rhif ffôn a chod deialu	<input type="text"/>

Efallai y bydd angen inni gysylltu â chi ynghylch eich cais rhwng 8.30am a 5.00pm. Dywedwch wrthym pa amser sy'n gyfleus i chi.

Rhan 2 Plant a phobl ifanc

Mae plant a phobl ifanc yn golygu:

- Plant o dan 16 oed sy'n byw gyda chi fel arfer
- Pobl ifanc 16, 17 neu 18 oed sy'n byw gyda chi fel arfer, sy'n derbyn addysg amser llawn ac yn dilyn cwrs nad yw'n uwch na lefel Safon Uwch, Tystysgrif Addysg yr Alban Lefel Uwch, neu gwrs cyfatebol

SYLWER: Peidiwch â chyfrif pobl ifanc sydd wedi gorffen cyrsiau fel y rhain yn barhaol. Soniwch amdanynt yn **Rhan 3**. Peidiwch â chyfrif plant neu bobl ifanc sy'n lletya gyda chi, na phlant maeth. Soniwch amdanynt yn **Rhan 3** a defnyddiwch **Ran 5** i nodi unrhyw arian yr ydych chi'n ei gael am edrych ar eu holau.

2.1	A oes gennych unrhyw blant neu bobl ifanc yn byw gyda chi ac sy'n cael eu cynnal gennych chi?	Nac oes	EWCH I Ran 3
		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Cyfenw/enw teuluol	Enwau eraill	Dyddiad geni	Sut mae'n perthyn i chi

EWCH I **Ran 3**

Rhan 3 Pobl eraill sy'n byw gyda chi

Rydyn ni angen gwybod am unrhyw bobl eraill sy'n byw gyda chi. Mae angen yr wybodaeth hon arnom er mwyn i ni gyfrifo eich costau cartref yn gywir.

Dywedwch wrthym am:

- unrhyw blant neu bobl ifanc nad ydych chi wedi sôn amdanynt yn barod yn **Rhan 2**
- perthnasau sy'n byw gyda chi
- ffrindiau sy'n byw gyda chi
- pobl sy'n lletya gyda chi – dywedwch amdanynt yng Nghwestiwn **3.3**

Peidiwch â dweud wrthym am:

- y bobl yr ydych wedi sôn amdanynt yn barod yn **Rhannau 1 a 2**
- cyd-berchenogion neu gyd-denantiaid
- cyd-denantiaid, os ydych chi'n fyfyrwr amser llawn a'u bod yn byw yn yr un llety â chi
- landlordiaid
- preswylwyr eraill, os ydych chi'n byw mewn cartref gofal
- teulu/ffrindiau yr ydych chi'n byw gyda nhw

3.1	A oes unrhyw un arall yn byw gyda chi? <i>Dywedwch amdanynt isod a thiciwch pa bynnag flychau sy'n berthnasol.</i>	Nac Oes	EWCH I GWESTIWN 3.3
		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD

	Person 1	Person 2	Person 3	Person 4
Cyfenw/enw teuluol				
Enwau eraill				
Oedran				
Y berthynas â chi				
Y Credyd Cynhwysol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Elfen Byw Personol y Taliad Annibyniaeth Bersonol	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm nad yw'n cynnwys elfen	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Ar Hyfforddiant Ieuenctid	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Myfyriwr amser llawn	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael Cymhorthdal Incwm	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael Credyd Pensiwn	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael gofal ar gyfradd ganolig neu uwch y lwfans byw i'r anabl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael Lwfans Gweini	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Wedi'i gofrestru fel person dall	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>
Yn cael arian o waith	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>

Rhan 3 Pobl eraill sy'n byw gyda chi

Ar gyfartaledd, a yw'r person uchod yn gweithio am 16 awr yr wythnos neu fwy?

Nac ydy		Nac ydy		Nac ydy		Nac ydy	
Ydy		Ydy		Ydy		Ydy	

Os yw'r person uchod yn gweithio dywedwch faint o arian y mae'n ei ennill bob wythnos. Nid oes yn rhaid ichi ddweud hyn, ond os nad yw'n ennill llawer o arian efallai y gallech gael mwy o gymorth. *Cofiwch gynnwys eu henillion cyn tynnu treth ac Yswiriant Gwladol – ac mae angen cynnwys unrhyw arian arall y maent yn ei gael. Peidiwch â chynnwys eu Lwfans Gweini na Lwfans Byw i'r Anabl, os ydynt yn ei gael.*

£	£	£	£
---	---	---	---

Os oes mwy na phedwar person yn byw gyda chi, rhowch y manylion yn **Rhan 9**

3.2	A oes rhai o'r bobl a nodwyd gennych yng Nghwestiwn 3.1 yn byw gyda'i gilydd fel pâr o'r un rhyw neu o ryw gwahanol, p'un a ydynt ai peidio yn briod neu mewn partneriaeth sifil?	Nac oes		RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Oes		
(enw)	yw partner (enw)			
(enw)	yw partner (enw)			

3.3	A oes gennych chi neu'ch partner letywyr, tenantiaid neu is-denantiaid yn byw gyda chi? <i>Peidiwch â chyfrif pobl sy'n byw fel rhan o'ch teulu. Rhowch y manylion yng Nghwestiwn 3.1.</i>	Nac oes		RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Oes		

	Person 1	Person 2	Person 3
Enw			
Faint y mae nhw'n ei dalu?	£ bob	£ bob	£ bob
A yw'n cynnwys gwres?	Nac ydy Ydy	Nac ydy Ydy	Nac ydy Ydy
A yw'n cynnwys prydau bwyd?	Nac ydy Ydy	Nac ydy Ydy	Nac ydy Ydy

EWCH I **Ran 4**

Rhan 4 Eiddo, cynilion ac arian arall

Mae cynilion yn golygu:

- Arian mewn cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu Swyddfa'r Post, gan gynnwys cyfrifon cyfredol a chyfrifon cynilion
- Bondiau Premiwm, Bondiau Incwm neu Fondiau Cyfalaf
- Cyfranddaliadau
- Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol
- Cwmnïau Buddsoddi (Unit Trusts), Cynlluniau Ecwiti Personol (PEP), Cyfrifon Cynilion Unigol (ISA) a buddsoddiadau eraill
- Unrhyw arian arall

SYLWER: Os oes gennych chi bartner a bod gennych chi eich dau gynilion dylech nodi cyfanswm cynilion y ddau ohonoch. Os nad ydych chi'n gwybod beth yw gwerth unrhyw ran o'ch cynilion neu'ch buddsoddiadau dylech edrych ar eich datganiadau diweddaraf.

4.1	A oes gennych chi neu'ch partner gynilion neu unrhyw arian arall yn y wlad hon neu dramor?	Nac oes	
		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD
	Arian mewn cyfrifon - <i>rhowch y cyfanswm sydd yn y cyfrifon</i>	✓	£
	Bondiau Premiwm - <i>nodwch eu gwerth</i>	✓	£
	Bondiau Incwm neu Fondiau Cyfalaf - <i>nodwch eu gwerth</i>	✓	£
	Cyfranddaliadau - <i>rhowch y manylion isod</i>	✓	
	<i>Rhowch enw'r cwmni a'r math o gyfranddaliadau</i>		<i>Nifer y cyfranddaliadau</i>
	Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol - <i>rhowch y manylion isod</i>	✓	
	<i>Rhif y dystysgrif</i>		<i>Nifer yr unedau</i>
	Cwmnïau buddsoddi, PEP, ISA a buddsoddiadau eraill - <i>beth yw eu gwerth cyfredol, ar ôl unrhyw gostau gwerthu?</i>	✓	£
	Unrhyw arian arall - <i>er enghraifft unrhyw arian parod</i>	✓	£

4.2	Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar eiddo neu dir yn y wlad hon neu dramor? <i>Peidiwch â chynnwys yr eiddo lle'r ydych yn byw.</i>	Nac ydw	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
	Beth yw cyfeiriad yr eiddo neu'r tir?		
	Beth yw gwerth yr eiddo neu'r tir?		£
	Faint o ddyled, os o gwbl, sydd ar ôl i'w dalu ar yr eiddo?		£

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi os bydd arnom angen mwy o wybodaeth am hyn.

Mae angen inni wybod am yr holl incwm yr ydych chi'n ei gael. Dylech ddweud am eich gwaith yn [Rhan 6](#). Dylech ddweud am eich incwm myfyriwr yn [Rhan 8](#). Defnyddiwch y rhan hon i ddweud wrthym am bopeth arall.

- Os ydych chi'n cael **Credyd Pensiwn** [credyd gwarant] nid oes yn rhaid ichi ddefnyddio'r ffurflen hon - gweler y nodyn ar y clawr blaen. Os nad ydych chi'n siŵr pa fath o Credyd Pensiwn rydych chi'n ei dderbyn, mae'r dudalen '*Sut y cyfrifwyd eich Credyd Pensiwn*' a anfonwyd gyda'r llythyr a oedd yn dweud wrthyfych bod gennych hawl i gael Credyd Pensiwn, yn dangos a ydych chi'n cael credyd gwarant.
- Dylech gynnwys unrhyw beth sy'n cael ei dalu i rywun arall ar eich rhan neu rywbeth yr ydych chi'n ei gael ar ran rhywun arall
- Os ydych chi'n derbyn taliad pensiwn a budd-daliadau gyda'i gilydd, dylech eu rhestru ar wahân - bydd eich llyfr archeb neu'r llythyr am y budd-daliadau neu'r pensiwn yn dweud beth yr ydych chi'n ei gael

! Os ydych chi'n cael Credyd Pensiwn ni ddylech ei gynnwys gydag unrhyw Bensiwn Ymddeol Gwladol. Dylech restru taliadau credyd cynilion y Credyd Pensiwn ar wahân yng Nghwestiwn [5.1](#)

5.1	Ydych chi neu'ch partner yn cael unrhyw fudd-daliadau neu bensiynau Nawdd Cymdeithasol?	Nac ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Ydw	
Dywedwch wrthym am: <ul style="list-style-type: none"> • Bensiwn Anabledd Rhyfel • Taliadau Annibyniaeth Bersonol • Taliadau Annibyniaeth y Lluoedd Arfog • Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth • Budd-dal Analluogrwydd • Lwfans Anabledd Difrifol • Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol • Tâl Salwch Statudol • Lwfans Ceisio Gwaith sy'n Seiliedig ar Gyfraniadau • Lwfans Mamolaeth • Credyd Pensiwn [credyd cynilion] • Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw • Budd-dal Gwraig Weddw • Lwfans Profedigaeth • Lwfans Rhiant Gweddw • Lwfans Gofalwyr • unrhyw fudd-dal Nawdd Cymdeithasol arall* 			
<p>* Dywedwch wrthym am unrhyw Lwfans Gweini a Lwfans Byw i'r Anabl yng Nghwestiynau 5.3 a 5.4. Peidiwch â dweud wrthym am Fudd-dal Tai na Budd-dal y Dreth Gyngor.</p>			
Enw'r budd-dal	Ar gyfer pwy?	Faint rydych chi'n ei gael?	
		£	bob
		£	bob
		£	bob
		£	bob
		£	bob
		£	bob

5.2	Ydych chi neu'ch partner yn cael unrhyw incwm arall? Peidiwch â chynnwys gwaith neu incwm myfyriwr yma.	Nac ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Ydw	
Dywedwch wrthym am: <ul style="list-style-type: none"> • bensiynau preifat • pensiynau o swydd flaenorol • arian o gronfa ymddiriedolaeth • taliadau cynhaliaeth • talebau • taliadau eraill nad ydynt yn Nawdd Cymdeithasol, ee Credydau Treth • arian gan elusen neu fudiad gwirfoddol • unrhyw incwm arall nad ydych wedi cyfeirio ato yn barod 			
Math o incwm	Ar gyfer pwy?	Faint rydych chi'n ei gael?	
		£	bob
		£	bob
		£	bob
		£	bob
		£	bob

Chi		Eich partner	
5.3	Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Gweini?		
Nac ydw		Nac ydw	
Ydw	TICIWCH Y GYFRADD ISOD	Ydw	TICIWCH Y GYFRADD ISOD
	Cyfradd uwch? ✓		Cyfradd uwch? ✓
	Cyfradd is? ✓		Cyfradd is? ✓

5.4	Ydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Byw i'r Anabl?		
Nac ydw		Nac ydw	
Ydw	TICIWCH Y GYFRADD/CYFRADDAU ISOD	Ydw	TICIWCH Y GYFRADD/CYFRADDAU ISOD
Gofal		Symudedd	
Y gyfradd uchaf?	✓	Y gyfradd uchaf?	✓
Y gyfradd ganolog?	✓	Y gyfradd isaf?	✓
Y gyfradd isaf?	✓		

5.5	Ydych chi neu'ch partner yn cael Taliad Annibyniaeth Bersonol neu Daliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog?		
Nac ydw		Nac ydw	
Ydw	TICIWCH Y GYFRADD ISOD	Ydw	TICIWCH Y GYFRADD ISOD
Yr elfen byw dyddiol		Yr elfen symudedd	
Y gyfradd uwch	✓	Y gyfradd uwch	✓
Y gyfradd safonol	✓	Y gyfradd safonol	✓
Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog		✓	

5.6	Ydych chi neu'ch partner yn anfon nodiadau salwch at eich swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol ar hyn o bryd? <i>Os ydych chi'n anfon nodiadau salwch at eich cyflogwr dylech roi'r manylion yng Nghwestiwn 6.4.</i>		
Nac ydw		Nac ydw	
Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD	Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Pryd y gwnaethoch ddechrau eu hanfon?			
Dros flwyddyn yn ôl?		✓	
Llai na blwyddyn yn ôl?		✓	
Rhowch yr union ddyddiad.		dd/mm/bbbb	

5.7	A yw eich swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol wedi dweud nad ydych yn gallu gweithio ac nad oes yn rhaid ichi anfon nodiadau salwch?			
Nac ydy	<input type="checkbox"/>	Nac ydy	<input type="checkbox"/>	
Ydy	<input type="checkbox"/> <small>RHOWCH Y MANYLION ISOD</small>	Ydy	<input type="checkbox"/> <small>RHOWCH Y MANYLION ISOD</small>	
Pryd y gwnaethant ddweud wrthydych chi?		Pryd y gwnaethant ddweud wrthydych chi?		
<input type="text" value="dd/mm/bbbbbb"/>		<input type="text" value="dd/mm/bbbbbb"/>		

5.8	Ydych chi neu'ch partner yn gofalu am rywun ond yn methu cael Lwfans Gofalwr am eich bod yn cael budd-dal arall yn lle hynny? <i>Caiff Lwfans Gofalwr ei dalu i rywun sy'n gofalu am berson sydd ag anabledd difrifol. Roedd yn arfer cael ei alw'n Lwfans Gofal Analluedd. Nid yw'r un fath â'r Lwfans Gweini, y Lwfans Byw i'r Anabl, y Taliad Annibyniaeth Bersonol na Thaliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog."</i>			
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	
Ydw	<input type="checkbox"/>	Ydw	<input type="checkbox"/>	

5.9	A oes rhywun heblaw amdanoch chi neu'ch partner yn cael Lwfans Gofalwr am ofalu am y naill neu'r llall ohonoch chi?			
Nac oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	
Oes	<input type="checkbox"/>	Oes	<input type="checkbox"/>	

Rhan 6 Eich gwaith

Yn y rhan hon o'r ffurflen mae angen inni wybod faint o arian rydych chi a'ch partner yn ei gael am unrhyw waith rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd.

Mae hyn yn cynnwys:

- gweithio ar gyfer cyflogwr
- gwaith hunan-gyflogedig
- gwaith amser llawn neu ran-amser
- gwaith parhaol neu waith dros dro
- gwaith gwirfoddol/elusennol gyda thâl
- cynlluniau hyfforddi
- goramser, tipiau

Chi Eich partner

6.1 Oes gennych chi neu'ch partner swydd?

Nac oes	EWCH I RAN 7		Nac oes	EWCH I RAN 7	
Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD	

Beth yw eich swydd?

--	--

Faint o oriau rydych chi'n eu gweithio bob wythnos fel arfer?

--	--

6.2 Pa fath o waith yw e?
Ticiwch yr holl flychau perthnasol yng ngweddill y Rhan hon a rhowch yr wybodaeth y gofynnwn amdani

6.2A Cyflogedig

6.2A Cyflogedig

! Dywedwch pa mor aml yr ydych chi'n cael eich talu ac anfonwch y slipiau cyflog isod fel prawf o'ch enillion. Os na allwch chi ddarparu'r rhain dylech ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar: 0300 330 1343 a byddwn ni'n dweud wrthyh beth i'w wneud.

Wythnosol	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 4 slip cyflog diwethaf
Bob pythefnos	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 4 slip cyflog diwethaf
Bob pedair wythnos	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 2 slip cyflog diwethaf
Bob mis	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 2 slip cyflog diwethaf

Wythnosol	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 4 slip cyflog diwethaf
Bob pythefnos	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 4 slip cyflog diwethaf
Bob pedair wythnos	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 2 slip cyflog diwethaf
Bob mis	<input checked="" type="checkbox"/>	Anfonwch y 2 slip cyflog diwethaf

6.2B Hunan-gyflogedig

6.2B Hunan-gyflogedig

! Anfonwch gopi o'ch cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben o fewn y 12 mis diwethaf. Os na allwch ddarparu'r rhain dylech ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar 0300 330 1343 a byddwn ni'n dweud wrthyh beth i'w wneud.
SYLWER: Nid ydym yn gallu derbyn ffurflenni hunan-asesiad Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel tystiolaeth o incwm hunan-gyflogedig.

6.3 Ydych chi neu'ch partner yn talu unrhyw beth tuag at bensiwn personol?
Peidiwch â chynnwys unrhyw beth yr ydych chi'n ei gyfrannu at bensiwn gwaith gan y bydd hwnnw'n cael ei ddangos ar eich slipiau cyflog.

Nac ydw			Nac ydw		
Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD	

Faint ydych chi'n ei dalu?
£ bob

Faint ydych chi'n ei dalu?
£ bob

Chi Eich partner

6.4	Ydych chi neu'ch partner yn anfon nodiadau salwch at eich cyflogwr ar hyn o bryd? <i>Os ydych chi'n anfon nodiadau salwch at eich swyddfa Nawdd Cymdeithasol rhowch y manylion yng Nghwestiwn 5.5.</i>		
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	RHOWCH Y MANYLION ISOD		RHOWCH Y MANYLION ISOD
Pryd y gwnaethoch ddechrau eu hanfon?		Pryd y gwnaethoch ddechrau eu hanfon?	
dd/mm/bbbb		dd/mm/bbbb	

!	Dylech anfon eich slip cyflog diweddaraf a nodi pa gyfnod y mae'n ymdrin ag ef (ee wythnos, mis). Os na allwch chi ddarparu hwn dylech ffonio ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar 0300 330 1343 a byddwn ni'n dweud wrthy'ch chi beth i'w wneud.		
Cyfnod y slip cyflog	<input type="text"/>	Cyfnod y slip cyflog	<input type="text"/>

6.5	Ydych chi neu'ch partner yn dilyn Cynllun Hyfforddi?		
Nac ydw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ydw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
	RHOWCH Y MANYLION ISOD		RHOWCH Y MANYLION ISOD

Pa fath o gynllun hyfforddi yw e? *Ticiwch bob blwch perthnasol isod a rhoi'r wybodaeth yr ydyn ni'n gofyn amdani.*

6.5A	Hyfforddiant leuenticid <input checked="" type="checkbox"/>	6.5A	Hyfforddiant leuenticid <input checked="" type="checkbox"/>
<p><i>Gall Hyfforddiant leuenticid gynnwys:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Prentisiaethau Modern • Hyfforddiant Seiliedig ar Waith • Hyfforddiaethau Cenedlaethol • Ceiswyr sgiliau 			

Ydych chi'n cael eich cyflogi fel person dan hyfforddiant neu fel gweithiwr?

Person dan hyfforddiant <input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Person dan hyfforddiant <input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
RHOWCH Y MANYLION ISOD		RHOWCH Y MANYLION ISOD	
<p>Faint rydych chi'n ei gael? <i>Dywedwch faint rydych chi'n ei gael ar ôl tynnu unrhyw Dreth ac Yswiriant Gwladol. Peidiwch â chynnwys unrhyw lwfansau ar gyfer teithio.</i></p> <p>£ <input type="text"/> bob</p>		<p>Faint rydych chi'n ei gael? <i>Dywedwch faint rydych chi'n ei gael ar ôl tynnu unrhyw Dreth ac Yswiriant Gwladol. Peidiwch â chynnwys unrhyw lwfansau ar gyfer teithio.</i></p> <p>£ <input type="text"/> bob</p>	
Gweithiwr <input checked="" type="checkbox"/>		Gweithiwr <input checked="" type="checkbox"/>	
EWCH I GWESTIWN 6.2A AC ANFONWCH Y SLIPIAU CYFLOG		EWCH I GWESTIWN 6.2A AC ANFONWCH Y SLIPIAU CYFLOG	

6.5B	Hyfforddiant arall <input checked="" type="checkbox"/>	6.5B	Hyfforddiant arall <input checked="" type="checkbox"/>
<p><i>Gall hyfforddiant arall gynnwys:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddiant ar gyfer Gwaith • Y Fargen Newydd 			

Enw'r cynllun	Enw'r cynllun
<input type="text"/>	<input type="text"/>
Faint rydych chi'n ei gael?	Faint rydych chi'n ei gael?
£ <input type="text"/> bob	£ <input type="text"/> bob

! Anfonwch lythyr gan eich darparwr hyfforddiant sy'n rhoi manylion eich taliad.

Rhan 7 Lle'r ydych yn byw

Yn y rhan hon mae angen inni wybod am eich cyfran chi a chyfran eich partner o unrhyw beth yr ydych chi'n ei dalu ar gyfer lle'r ydych yn byw.

Dywedwch wrthym am unrhyw arian yr ydych chi'n ei dalu:

- i landlord preifat
- i gyngor lleol
- i gymdeithas dai
- am ystafell mewn gwely a brecwast / hostel / gwesty
- am rent tir
- am forgais
- am y Dreth Gyngor
- am gostau gwasanaeth

7.1	Ydych chi neu eich partner yn yr ysbyty?	Nac ydw		RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Ydw		
	Enw'r person sydd yn yr ysbyty			
	Dyddiad yr aeth i'r ysbyty	/ /		
7.2	Ydych chi neu'ch partner yn byw gyda rhieni, perthnasau neu ffrindiau yn eu cartref nhw?	Nac ydw	EWCH I GWESTIWN 7.3	
		Ydw	EWCH I GWESTIWN 7.10	
7.3	Ydych chi neu'ch partner yn gyd-berchennog neu'n cyd-rentu'r lle yr ydych chi'n byw ynddo?	Nac ydw		RHOWCH Y MANYLION ISOD
		Ydw		
	Gyda phwy?			
	Beth yw eu perthynas gyda chi neu'ch partner?			
7.4	Ydych chi neu'ch partner yn talu rhent am y lle'r ydych chi'n byw ynddo?	Nac ydw	EWCH I GWESTIWN 7.5	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD	
	<p><i>Os ydych yn talu arian i rieni, perthnasau neu ffrindiau, ticiwch Na ac ewch i Gwestiwn 7.10.</i> <i>Nid ydym am wybod am yr arian yr ydych yn ei dalu iddyn nhw.</i> <i>Os ydych chi'n fyfyrwr ac yn talu rhent ar gyfer lle'r ydych chi'n byw, ticiwch Nac ydw a rhowch y manylion yn Rhan 8</i> <i>Os ydych chi'n talu morgais ewch i Gwestiwn 7.5</i></p>			
	Faint rydych chi'n ei dalu? <i>Os ydych yn cael Budd-dal Tai, tynnwch ef o'r cyfanswm.</i>	£		
	<i>Peidiwch â chynnwys treth dŵr, y Dreth Gyngor nac ôl-ddyledion.</i>	bob		
	<i>Os ydych chi'n aros i glywed am gais am Fudd-dal Tai, dywedwch wrthym beth rydych chi'n ei dalu ar hyn o bryd. Tynnwch y symiau ar gyfer gwres, golau, coginio a dŵr poeth os ydynt yn cael eu cynnwys yn eich rhent, a'ch bod yn gwybod beth yw'r symiau.</i>			
	<i>Os yw gwres, golau, coginio a dŵr poeth yn cael eu cynnwys yn eich rhent ac nad ydych yn gwybod beth yw'r symiau, ticiwch y blychau perthnasol isod.</i>			
	A yw'ch rhent yn cynnwys y pethau hyn?	Gwres	✓	
	<i>Ticiwch y blychau perthnasol.</i>	Golau	✓	
	<i>Os nad yw, neu os ydych eisoes wedi eu tynnu o'ch rhent, gadewch y blwch yn wag.</i>	Coginio	✓	
		Dŵr poeth	✓	
	Ai dim ond un ystafell sydd gennych?	Nage		
	<i>Peidiwch â chyfrif ystafelloedd rydych yn eu rhannu gyda phobl nad ydynt yn aelodau o'ch teulu.</i>	le		
	A yw'r rhent yn cynnwys unrhyw brydau bwyd?	Nac ydy		
		Ydy	RHOWCH Y MANYLION ISOD	
	Faint o frecwastau yr wythnos y person?			
	Faint o brydau canol dydd yr wythnos y person?			
	Faint o brydau gyda'r nos yr wythnos y person?			

7.5	Oes rhaid ichi neu'ch partner dalu'r Dreth Gyngor? <i>Peidiwch â chynnwys y Dreth Gyngor am eiddo yr ydych wedi dweud wrthym amdano yn Rhan 4</i>	Nac oes	
		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor <i>Dywedwch wrthym y swm yr ydych yn ei dalu. Peidiwch â chynnwys ôl-ddyledion, ac yn yr Alban peidiwch â chynnwys trethi dŵr neu garthffosiaeth.</i>		£	

7.6	Ydych chi neu'ch partner yn berchen ar eich tŷ eich hun? <i>Os oes gennych forgais neu fenthyciad gwarantedig, ticiwch Ydw</i>	Nac ydw	EWCH I GWESTIWN 7.8
		Ydw	EWCH I GWESTIWN 7.7
<i>Ticiwch Ydw hefyd os ydych yn talu rhent ac yn rhannol berchen ar eich cartref.</i>			

7.7	Oes gennych chi neu'ch partner forgais neu fenthyciad gwarantedig ar eich cartref?	Nac oes	
		Oes	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Faint rydych chi'n ei dalu am y morgais neu'r benthyciad? <i>Cofiwch gynnwys unrhyw bremiwm gwaddol (endowment) sy'n gysylltiedig â'r morgais. Peidiwch â chynnwys unrhyw bremiwm yswiriant arall. Peidiwch â chynnwys ôl-ddyledion.</i>		£	
		bob	

7.8	Ydych chi neu'ch partner yn talu rhent tir? <i>Gelwir hyn yn dreth 'feu' yn yr Alban.</i>	Nac ydw	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Faint o rent tir rydych chi'n ei dalu? <i>Peidiwch â chynnwys ôl-ddyledion.</i>		£	
		bob	

7.9	Ydych chi neu'ch partner yn gorfod talu unrhyw daliadau gwasanaeth am y lle'r ydych yn byw ynddo? <i>Wrth daliadau gwasanaeth rydym yn golygu pethau fel glanhau a chynnal a chadw manau cyffredin fel y cyntedd a'r grisiau.</i>	Nac ydw	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Faint rydych chi'n ei dalu? <i>Peidiwch â chynnwys taliadau ar gyfer nwy neu drydan arferol, prydau bwyd na glanhau eich ystafelloedd eich hunain. Peidiwch â chynnwys ôl-ddyledion, neu unrhyw filiau eraill yr ydych chi'n eu talu ar wahân i'ch taliadau gwasanaeth. Os ydych chi'n cael Budd-dal Tai, tynnwch hwn o'r cyfanswm.</i>		£	
		bob	
Ar gyfer beth y mae'r taliad?			

7.10	A ydych chi neu'ch partner wedi cael benthyciad i addasu'ch cartref ar gyfer anghenion arbennig person anabl? <i>Ticiwch Nac ydw os yw'r person anabl yn oedolyn a chanddo gynilion neu eiddo gwerth mwy na £16,000.</i>	Nac ydw	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD
Faint rydych chi'n ei dalu am y benthyciad? <i>Peidiwch â chynnwys ôl-ddyledion.</i>		£	
		bob	
Enw'r person anabl			

7.11	Ydych chi neu'ch partner yn byw'n barhaol mewn cartref gofal? <i>Os ydych chi'n byw mewn tŷ gwarchod ticiwch Nac ydw ac atebwch gwestiwn 7.4.</i>	Nac ydw	EWCH I Ran 8
		Ydw	

7.12	A yw'r awdurdod lleol wedi asesu eich adnoddau, ac o ganlyniad i hynny a ydych yn cael help gyda chost eich cartref gofal?	Nac ydw	
		Ydw	

- Efallai y byddwn yn gofyn ichi ddweud faint o arian yr ydych chi'n ei dderbyn neu'n ei dalu. Os byddwch yn nodi swm blynyddol, dywedwch ai swm ar gyfer 52 wythnos yw hwn, neu ar gyfer y flwyddyn academiaidd.
- Os ydych chi'n gwneud y cais hwn yn ystod gwyliau'r haf, dylech anfon copi o'r hysbysiad am ddyfarniad y llynedd a'r hysbysiad am y dyfarniad ar gyfer eleni (os ydych chi wedi'i dderbyn).

Chi	Eich partner
------------	---------------------

8.1	Ydych chi neu'ch partner mewn addysg amser llawn? <i>Dim ond os yw'ch cwrs wedi dechrau y dylech dicio Ydw.</i>
------------	---

Nac ydw	EWCH I Ran 9		Nac ydw	EWCH I Ran 9
Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD

Cymhwyster a geisir a'r math o gwrs (ôl-radd neu israddedig)

Enw'r ysgol / coleg/prifysgol

Union ddyddiadau a thymhorau'r flwyddyn academiaidd gyfredol

Cysylltwch â'ch coleg neu'ch prifysgol os nad ydych yn gwybod beth yw'r dyddiadau. Ni allwn dderbyn dyddiadau'r semestrau. Fel arfer, rhennir y flwyddyn yn dri thymor gyda gwyliau dros y Nadolig a'r Pasg. Os na fyddwch yn rhoi union ddyddiadau'r tymhorau gallai hynny arafu'ch cais.

Tymor 1	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy		Tymor 1	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy
Tymor 2	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy		Tymor 2	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy
Tymor 3	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy		Tymor 3	dechrau	dd/mm/yyyy	gorffen	dd/mm/yyyy

Ydych chi yn eich blwyddyn olaf neu'ch unig flwyddyn?

Nac ydw	Dyddiad dechrau'r flwyddyn nesaf		Nac ydw	Dyddiad dechrau'r flwyddyn nesaf
	dd/mm/yyyy			dd/mm/yyyy
Ydw			Ydw	

8.2	Ydych chi neu'ch partner yn fyfyrwr o dramor?
------------	---

Nac ydw			Nac ydw	
Ydw	<i>Ym mha wlad rydych chi'n byw pan nad ydych yn fyfyrwr?</i>		Ydw	<i>Ym mha wlad rydych chi'n byw pan nad ydych yn fyfyrwr?</i>

8.3	A yw'r Awdurdod Addysg Lleol (AALI) neu'r Student Awards Agency for Scotland (SAAS) neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn talu'ch ffioedd dysgu chi neu'ch partner?
------------	--

Nac ydy	<i>Pwy sy'n talu?</i>		Nac ydy	<i>Pwy sy'n talu?</i>	
Ydy	<i>Ticiwch pwy sy'n talu</i>	AALI <input checked="" type="checkbox"/>	Ydy	<i>Ticiwch pwy sy'n talu</i>	AALI <input checked="" type="checkbox"/>
		SAAS <input checked="" type="checkbox"/>			SAAS <input checked="" type="checkbox"/>
		GIG <input checked="" type="checkbox"/>			GIG <input checked="" type="checkbox"/>

8.4	Ydych chi neu'ch partner wedi gwneud cais i'r AALI, SAAS, GIG neu Gwmni Benthyciadau Myfyrwr am gymorth ariannol?
------------	---

Nac ydw			Nac ydw	
Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD

Ticiwch bob math o gefnogaeth yr ydych chi wedi gwneud cais amdano – ticiwch hyd yn oed os na chafodd ei dalu

Cymorth Ffioedd Dysgu <input checked="" type="checkbox"/>	Cymorth Ffioedd Dysgu <input checked="" type="checkbox"/>
Cymorth Benthyciad <input checked="" type="checkbox"/>	Cymorth Benthyciad <input checked="" type="checkbox"/>
Cymorth Grant <input checked="" type="checkbox"/>	Cymorth Grant <input checked="" type="checkbox"/>

Rhan 8 Pobl mewn addysg amser llawn

8.5

Beth yw ffynhonnell yr arian yr ydych chi a'ch partner yn ei ddefnyddio i fyw arno wrth dderbyn addysg amser llawn? *Ticiwch y blychau perthnasol. Efallai fod mwy nag un blwch yn berthnasol.*



Gwnewch yn siŵr eich bod yn anfon y dystiolaeth yr ydym yn gofyn amdani. Ni fyddwn yn gallu delio â'ch cais hebdi. Os nad ydych yn siŵr beth y dylech ei anfon, ffoniwch ein Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar 0300 330 1343 neu fynd i: ewch i: www.ppa.org.uk/ppa/low_income.htm

Chi

Eich partner

Benthyciad gan Gwmni Benthyciadau Myfyrwyr

Anfonwch yr asesiad ariannol neu'r hysbysiad o gymorth gan Student Support Direct ar eich cyfer chileich partner. Rhaid inni gael yr asesiad ariannol neu'r hysbysiad o gymorth. Ni allwn dderbyn y rhestr o daliadau.

Grant Cynhaliath

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael.

Bwrsariaeth y GIG

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael.

Bwrsariaeth y Diploma Nyrsio / Bydwreigiaeth

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael. Peidiwch ag anfon eich slip cyflog misol.

Ysgoloriaeth/Nawdd/Dyfarniad / Bwrsariaeth arall

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael.

Grantiau/Bwrsariaethau Dibynyddion

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael.

Grant / benthyciad o dramor

Anfonwch yr hysbysiad o ddyfarniad sy'n dangos faint yr ydych chileich partner yn ei gael. Os nad yw'r hysbysiad wedi'i ysgrifennu yn Saesneg, dylech ddarparu cyfieithiad.

Arian o waith rhan-amser neu amser llawn

*Llenwch **Ran 6.** Mae'n egluro beth y dylech chi ei anfon.*

Chi

Eich partner

Arian gan rieni *Dylech gynnwys arian a dderbyniwyd ar gyfer rhent a chostau byw ond **nid** arian i dalu am ffioedd dysgu. Dylech fod yn fanwl gywir.*

<input checked="" type="checkbox"/>	£
bob	

<input checked="" type="checkbox"/>	£
bob	

Unrhyw arian arall

Peidiwch â chynnwys arian ar gyfer ffioedd dysgu.

<input checked="" type="checkbox"/>	£
bob	

<input checked="" type="checkbox"/>	£
bob	

Pwy sy'n talu'r arian yma i chi?

Beth yw eu perthynas â chi?

Rhan 8 Pobl mewn addysg amser llawn

8.6	Ydych chi neu'ch partner yn byw gyda'ch rhieni yn ystod y tymor?	Nac ydw	
		Ydw	EWCH I Ran 9

8.7	Ydych chi neu'ch partner yn talu rhent am lle'r ydych yn byw, er enghraifft arian i dalu am lety mewn neuadd breswyl neu i landlord preifat?	Nac ydw	EWCH I Ran 9
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD

*Os ydych chi'n talu arian i rieni, perthnasau neu ffrindiau ticiwch **Nac ydw** ac ewch i **Ran 9**.
Does dim angen inni wybod am unrhyw arian yr ydych chi'n ei dalu iddynt.*

Faint rydych chi'n ei dalu?	£
<i>Tynnwch y symiau ar gyfer gwres, golau, coginio a dŵr poeth os ydynt yn cael eu cynnwys yn eich rhent, a'ch bod yn gwybod beth yw'r symiau.</i>	bob

Os yw gwres, golau, coginio neu ddŵr poeth yn cael eu cynnwys yn eich rhent ac nad ydych yn gwybod beth yw'r symiau, ticiwch y blychau perthnasol isod.

A yw'ch rhent yn cynnwys y pethau hyn? <i>Ticiwch y blychau perthnasol.</i> <i>Os nad yw, neu os ydych eisoes wedi eu tynnu o'ch rhent, gadewch y blwch yn wag.</i>	Gwres	<input checked="" type="checkbox"/>
	Golau	<input checked="" type="checkbox"/>
	Coginio	<input checked="" type="checkbox"/>
	Dŵr poeth	<input checked="" type="checkbox"/>

Ai dim ond un ystafell sydd gennych? <i>Peidiwch â chyfrif ystafelloedd rydych yn eu rhannu gyda phobl nad ydynt yn aelodau o'ch teulu.</i>	Na	
	Ie	

A yw'ch rhent yn cynnwys unrhyw brydau bwyd?	Nac ydy	
	Ydy	RHOWCH Y MANYLION ISOD

Faint o frecwastau yr wythnos y person?	
---	--

Faint o brydau canol dydd yr wythnos y person?	
--	--

Faint o brydau gyda'r nos yr wythnos y person?	
--	--

8.8	Ydych chi neu'ch partner yn talu rhent am eich llety myfyrwyr dros wyliau'r Nadolig neu'r Pasg?	Nac ydw	
		Ydw	RHOWCH Y MANYLION ISOD

Faint rydych chi'n ei dalu?	£
	bob

8.9	Ydych chi neu'ch partner yn byw yn eich llety myfyrwyr dros wyliau'r haf?	Nac ydw	
		Ydw	

EWCH I **Ran 9**

Defnyddiwch y dudalen hon i roi manylion unrhyw beth arall yr ydych chi'n credu y dylem ni ei wybod amdanoch chi neu'ch partner (os oes gennych chi un).

Er enghraifft dywedwch:

- ar beth yr ydych chi'n byw os nad ydych chi wedi datgan unrhyw incwm
- a oes gennych chi Invacar neu gar o dan y cynllun symudedd
- a ydych chi'n talu i fudiad elusennol neu wirfoddol i rywun fyw gyda chi ac edrych ar ôl y naill neu'r llall ohonoch
- a ydych chi'n cael arian yn ychwanegol at eich grant / benthyciad myfyrwyr am eich bod yn fyddar
- a ydych chi wedi'ch cofrestru'n ddall
- a ydych chi'n gwybod y bydd eich budd-daliadau neu'ch pensiwn yn codi. Dywedwch beth ydych chi'n ei gael ar hyn o bryd yn **Rhan 5** a rhowch y swm newydd a dyddiad y cynnydd isod

Defnyddiwch y dudalen yma hefyd i roi gwybod i ni am unrhyw beth arall yr ydych chi'n meddwl y dylem ni ei wybod.



**NAWR CWBLHEWCH EICH CAIS DRWY LOFNODI'R DATGANIAD
YN **RHAN 10** AR Y DUDALEN NESAF**



**NAWR CWBLHEWCH EICH CAIS DRWY LOFNODI'R DATGANIAD
YN RHAN 10 AR Y DUDALEN NESAF**

Gall gwybodaeth ffug arwain at weithredu sifil neu gyfreithiol. Disgwylir i'r sawl sy'n llofnodi'r ffurflen hon gymryd gofal rhesymol i sicrhau bod yr wybodaeth a roddir yn gywir. Os bydd unrhyw un yn cael ei ddal yn gwneud cais ffug am gymorth gyda Chostau Iechyd y GIG bydd yn rhaid iddynt dalu dirwy neu wynebu erlyniad.

Dylech ddarllen y datganiad a llofnodi a dyddio **Blwch 10A** isod.

Gellir gofyn i fy mhartner (os yn berthnasol) a enwir ar y ffurflen hon am wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r cais hwn a gellir ei rhyddhau iddo/iddi. Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn ac rwy'n deall, os nad yw, efallai y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Er mwyn gwirio hyn, rwy'n caniatáu datgelu gwybodaeth berthnasol i gyrff eraill, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol, a chan y cyrff hynny.

Blwch 10A	Llofnod		Dyddiad	/	/
------------------	---------	--	---------	---	---

RHAN 10B - OS YDYCH CHI'N GWNEUD CAIS AR RAN RHYWUN ARALL

Gallwch wneud cais ar ran rhywun arall am y rheswm a nodir isod yn unig. Chi sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr wybodaeth yn gywir.

Dylech ddarllen y datganiad a'i llofnodi a'i ddyddio ym **Blwch 10B** isod. Os nad ydych chi'n siŵr a oes gennych chi hawl i lofnodi, dylech ffonio'r Llinell Ymholiadau Cwsmeriaid ar **0300 330 1343**.

Rwy'n gyfrifol am faterion ariannol y person hwn gan fod ganddynt anawsterau dysgu neu gyflwr sy'n golygu nad ydynt yn gallu ymdrin â'u materion eu hunain.

*Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall, ac nad yw'r rheswm hwn yn berthnasol, dylent ddweud wrthyhych beth i'w ysgrifennu a dylent hwy lofnodi neu adael eu nod ym **Blwch 10A**.*

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi ar y ffurflen hon yn gywir a chyflawn ac rwy'n deall, os nad yw, efallai y bydd camau priodol yn cael eu cymryd. Er mwyn gwirio hyn, rwy'n caniatáu datgelu gwybodaeth berthnasol i gyrff eraill, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau ac Awdurdodau Lleol a chan y cyrff hynny. Dyma fy nghais am gymorth gyda chostau iechyd ar ran y sawl a enwir yn **Rhan 1**.

Blwch 10B	Llofnod		Dyddiad	/	/
------------------	---------	--	---------	---	---

Eich Enw					
Eich Cyfeiriad					
Cod post		Rhif Ffôn			
Eich perthynas chi â'r person yn Rhan 1					



WEDI ICHI LENWI'R FFURFLEN HON

Cofiwch y gallwn ni ymdrin â'ch cais ynghynt os byddwn ni'n cael yr holl wybodaeth yr ydyn ni'n gofyn amdani. Defnyddiwch y blychau ticio i wneud yn siŵr eich bod wedi llenwi'r ffurflen mor llawn â phosibl.

Rydw i wedi ateb yr holl gwestiynau sy'n berthnasol i mi	✓
Rydw i wedi amgáu'r slipiau cyflog y gofynnir amdanynt yn Rhan 6 (os yw hynny'n berthnasol)	✓
Rydw i wedi amgáu fy hysbysadau dyfarniadau myfyrwyr y gofynnir amdanynt yn Rhan 8 (os yw hynny'n berthnasol)	✓
Rydw i wedi llofnodi'r datganiad uchod	✓

Nid yw eich cais yn ddilys heb lofnod a dyddiad